Ysgol Harri Tudur/Henry Tudor School (Ysgol Penfro)

Ysgol uwchradd 11-19 oed newydd gwerth £38.3 miliwn ar safle'r ysgol bresennol ar gyfer 1463 o ddysgwyr ac Uned Awtistiaeth â 30 lle ynddi.

Prif resymau'r cynllun a'i fanteision, oedd:

- gwella deilliannau dysgwyr ar bob lefel a chynnig cwricwlwm cyfoethog ac ysgogol, fel bod y safonau uchaf i bawb yn cael eu cyflawni;

- datblygu amgylchedd campws dysgu sy'n bodloni gofynion Ysgolion yr 21ain Ganrif;

- cynnig amgylchedd dysgu sy'n gynhwysol ac yn ysbrydoli dysgwyr i gyflawni'r deilliannau gorau;

- cynnig campws dysgu sy'n croesawu'r disgyblion, y staff a'r gymuned, sy'n flaenllaw ac yn weladwy iawn i'r gymuned leol;

- cynnig campws dysgu sydd â TG yn nodwedd ganolog o ddarparu addysg ac sy'n gydnerth yn wyneb newid sy'n datblygu'n gyflym;

- cynnig model cost effeithiol ac effeithlon ar gyfer darparu, gan gynnwys dileu unrhyw ddyblygu diangen, paru'r capasiti â'r galw (yn wyneb newid demograffig), creu arbedion maint ac ehangu arbedion cwmpas;

- cynnig addysg mewn adeilad sy'n addas at ei ddiben;

- cynnig ystafelloedd dosbarth sy'n cydymffurfio â'r arwynebeddau a argymhellir yn y Bwletin Adeiladu ac sy'n caniatáu am hyblygrwydd yn wyneb cynnydd mewn angen;

- darparu uned awtistiaeth bwrpasol i'r Sir i fodloni'r galw a'r angen presennol.

GWYBODAETH ALLWEDDOL	
LLEOLIAD	Bush, Penfro, SA71 4RL
CATEGORI	Cymunedol
TREFNIADAU DERBYN	Cyngor Sir Penfro fydd yn parhau fel Awdurdod Derbyn yr ysgol. Bydd meini prawf polisi derbyn a gordanysgrifio'r Cyngor yn gymwys. Bydd yr ysgol yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw ac ni fydd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dewis naill ai dawn neu allu.
CAPASITI	1463 Uned Awtistig – 30
YSTOD OEDRAN	11-18
CATEGORI IAITH	Cyfrwng Saesneg (CS)
TRAFNIDIAETH YSGOL	Bydd trefniadau cludiant yn unol â'r gyfraith a pholisi'r Cyngor Sir.

GWYBODAETH YR ADEILADU

PENSAER: Powell Dobson / Austin Smith Lord

CONTRACTWR: Bouygues UK

COST CYFALAF: £42.9 miliwn

MANYLEBAU'R ADEILAD: Mae ysgol uwchradd newydd, tri llawr, yn cael ei hadeiladu uwchlaw'r ysgol bresennol, ynghyd â maes parcio newydd, addasiadau i'r briffordd a chaeau chwarae porfa a phorfa artiffisial.